**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

21 Rhagfyr 2023

**Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr**

Annwyl Jeremy,

Yn ddiweddar, gwnaethom ystyried Adroddiad newydd Comisiynydd y Gymraeg ar addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr.

Nodwn rai o'r ystadegau a ddarparwyd yn yr adroddiad. Er enghraifft:

- Y gwahaniaeth yng nghanrannau'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng dysgwyr ysgol (72%) a dysgwyr coleg (4%).
- Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod 15.2% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion drwy gyfrwng Cymraeg yn ystod 2021-22 o gymharu â 0.2% o weithgareddau mewn sefydliadau addysg bellach.
- Tri rheswm cyffredin sydd gan y rhai sy'n rhugl yn Gymraeg, neu'n ei medru cryn dipyn, dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yw:
    - y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt;
    - nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg;
    - y canfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon drwy astudio yn Saesneg.

- Y gwahaniaethau rhanbarthol rhwng y dysgwyr hynny oedd yn teimlo bod digon o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Yn gyffredinol, 60% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ond mae'r adroddiad yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol clir. Er enghraifft, yn y canolbarth, roedd 78% o ddysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ond yn y de-ddwyrain, dim ond 47% o ddysgwyr oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dywed yr adroddiad fod "prinder amlwg darpariaeth ôl-16 mewn sawl ardal".

Yn ei gasgliadau a'i ganfyddiadau, mae'r adroddiad yn nodi bod angen i'r sector ôl-16 fynd i'r afael â'r prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn "meysydd mwy galwedigaethol". Mae'r Comisiynydd hefyd yn tynnu sylw at nifer o feysydd eraill lle mae angen rhagor o waith neu ystyriaeth, gan gynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth i ddysgwyr barhau â'u haddysg ôl-ysgol;
- cryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws y sector ôl-16;
- cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cymwysterau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg;
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ôl-16.

Byddem yn croesawu cael eich barn am y materion a drafodwyd yn adroddiad y Comisiynydd, a gwybod pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn, a pha rôl y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yn ei chwarae wrth ymdrin â'r materion hyn.

Oherwydd ei gyfrifoldebau o ran y Gymraeg, anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 1 Chwefror 2024.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.